



ADOLYGU CYFLAWNIAD - iTrent

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Canllaw i Weithwyr

Gweledigaeth y Cyngor yw i Rondda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus.

Bwriad y Cyngor yw darparu arweinyddiaeth gymunedol gref a chreu amgylchedd lle mae modd i bobl a busnesau fod yn annibynnol, cyflawni eu potensial a ffynnu.



RHONDDA CYNON TAF



Adolygiadau Cyflawniad Unigolyn:

Canllaw i weithwyr – Beth, Pam a Sut?

Nod y broses Adolygiad Cyflawniad Unigolyn yw sicrhau eich bod chi'n effro i'r hyn y mae disgwyl i chi ei wneud er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd yn gyfle i nodi beth yn union rydych chi'n gyfrifol amdano a'r math o hyfforddiant, cymorth neu gyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnoch chi i wella rhagor.

Mae gyda chi'r hawl i gael eich adolygiad wedi'i gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Gadewch i'ch rheolwr wybod beth yw'ch dewis iaith wrth drefnu eich adolygiad er mwyn iddyn nhw wneud trefniadau addas (megis cyfieithu ar y pryd) lle bo angen.

Beth yw Adolygiad Cyflawniad Unigolyn?

Cyfle i eistedd i lawr a siarad â'ch rheolwr yw Adolygiad Cyflawniad Unigolyn. Yn ystod y drafodaeth bydd cyfle i sgwrsio'n agored am sut rydych chi wedi bodloni gofynion eich swydd, yr heriau a'r cyfleoedd rydych chi'n eu hwynebu, y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i gyflawni'n dda yn eich rôl, a chyfle i nodi'ch anghenion datblygu a'ch dyheadau o ran gyrfa i weithio tuag atyn nhw yn y dyfodol. Mae'n gyfle i edrych ymlaen a gosod nodau/amcanion.

Dylai'r cyfarfod grynhoi manylion eich cyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n digwydd yn gyson a'r trafodaethau cyflawniad sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Ni ddylai unrhyw beth yn y cyfarfod yma fod yn syndod.

Pa mor aml bydda i'n cael Adolygiad Cyflawniad Unigol?

Unwaith y flwyddyn, ond dylai'r Adolygiad Cyflawniad Unigol ategu'ch cyfarfodydd wyneb yn wyneb a/neu'ch sesiynau goruchwyliaeth.

Pam fod Adolygiadau Cyflawniad Unigolyn yn bwysig?

Mae cyfarfodydd Adolygiad Cyflawniad Unigolyn yn rhoi cyfle i adolygu a gwerthuso eich cyflawniad chi dros y 12 mis diwethaf a hefyd i nodi beth sydd ei angen ar gyfer y 12 mis nesaf.

Mae sgysiaau ac adborth rheolaidd yn annog cynhyrchiant a hefyd yn rhoi cyfle i ddod â phroblemau i'r amlwg a'u datrys nhw'n gyflym. Rydych chi eisiau gwybod lefel eich cyflawniad chi a'r hyn y mae modd i chi ei wneud i wella'ch cyflawniad. Dyw trafod cyflawniad a chael adborth ddim bob amser yn hawdd ond mae'n bwysig o ran eich llwyddiant parhaus a llwyddiant eich carfan chi.

Mae cyfarfodydd Adolygiad Cyflawniad Unigolyn yn rhoi cyfle i chi rannu gwybodaeth gyda'ch rheolwr chi trwy drafod yn uniongyrchol â nhw, naill ai wyneb yn wyneb neu dros Microsoft Teams.



Beth yw fy nghyfrifoldebau i fel gweithiwr?

➤ Cyn y cyfarfod

Mynnwch sgwrs â'ch rheolwr chi i drafod y broses a threfnu amser a lleoliad addas ar gyfer y cyfarfod adolygu – mae modd i hyn fod wyneb yn wyneb neu dros Microsoft Teams. Rhowch wybod i'ch rheolwr chi os oes gyda chi unrhyw anghenion penodol yn ymwneud â materion megis hygyrchedd.

Dewch yn gyfarwydd â'r [templed Adolygiad Cyflawniad Unigolyn](#) cyn y cyfarfod gyda'ch rheolwr chi.

Cymerwch amser cyn y cyfarfod i feddwl am y cwestiynau sydd ar y templed. Ystyriwch y 12 mis diwethaf – beth aeth yn dda, beth wnaethoch chi ei fwynhau, beth oedd yn anodd i chi a beth rydych chi wedi'i ddysgu? Meddyliwch am enghreifftiau a gwnewch nodiadau i'ch atgoffa chi yn ystod y cyfarfod. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o bethau i'w cynnwys:

"Gwnes i fodloni fy nhargedau o ran derbyn galwadau cwsmeriaid"

"Ces i drafferth i reoli blaenoriaethau a chynllunio fy amser pan oedd gwaith yn brysur"

"Gwnes i gwblhau cwrs e-ddysgu ar sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid"

"Ces i adborth gwych gan gwsmeriaid"

Efallai bydd gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch llwyddiannau – sicrhewch fod gyda chi'r wybodaeth neu'r dogfennau priodol yn ystod y cyfarfod.

Meddyliwch hefyd am y 12 mis nesaf; beth ydych chi am ei gyflawni? Yn eich barn chi, a oes unrhyw hyfforddiant y byddai efallai o fudd i chi ac a oes unrhyw gyfleoedd datblygu yr hoffech chi eu hystyried?

Trwy baratoi'n iawn bydd modd i chi dynnu sylw at feysydd gwaith rydych chi'n meddwl y bydd modd eu gwella.

Os ydych chi'n ansicr am unrhyw agwedd ar y broses, trafodwch hyn gyda'ch rheolwr chi cyn y cyfarfod.



➤ Yn ystod y cyfarfod

Dylai fod trafodaeth agored rhyngoch chi a'ch rheolwr chi ynghylch sut mae'r 12 mis blaenorol wedi mynd. Byddwch yn onest.

Dylwch chi drafod eich cyflawniad, eich datblygiad a'ch cynlluniau o ran gyrfa.

Mae'r cyfarfod yn cynnig cyfle i nodi sut y mae modd i chi wella'ch cyflawniad, y cymorth bydd ei angen arnoch chi efallai gan eich rheolwr i gyflawni hyn, a'ch amcanion ar gyfer eich datblygiad a'ch gyrfa yn y dyfodol. Bydd meddwl am y pynciau yma cyn y cyfarfod yn eich helpu chi i ganolbwyntio'r drafodaeth a chytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y 12 mis nesaf.

Ystyriwch a fydd hyfforddiant ychwanegol o fudd i'ch datblygiad chi a nodwch sut olwg fydd ar yr hyfforddiant – does dim rhaid iddo fod yn gwrs neu'n gymhwyster ffurfiol bob amser.

Isod fe welwch chi enghreifftiau o wahanol fathau o hyfforddi a datblygu a fydd efallai ar gael yn eich carfan neu adran, neu'n fewnol yn y Cyngor:

Dysgu trwy wneud	Dysgu trwy eraill
<ul style="list-style-type: none">• Aseiniadau heriol yn y swydd• Cyfnewid swyddi• Mentora• Carfanau prosiect• Gweithgorau• Cynnal ymchwil• Ysgrifennu adroddiadau• Casglu a dadansoddi data	<ul style="list-style-type: none">• Hyfforddi a mentora• Amlygrwydd trwy garfanau prosiect a gweithgorau• Rhwydweithio• Annog rhoi'r hyn sydd wedi'i ddysgu ar waith yn y gweithle• Chwilio am gyfleoedd
Dysgu trwy adnoddau <ul style="list-style-type: none">• Cyrsiau hyfforddi a datblygu• E-ddysgu• Cymwysterau ffurfiol• Cymwysterau a thystysgrifau proffesiynol	



➤ **Gosod nodau/amcanion**

Dylech chi drafod gosod nodau/amcanion sy'n briodol i'ch swydd chi. Mae'n bwysig peidio â chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar fesurau y mae modd eu meintoli. Mae modd i'r rhain fod yn ymwneud â chyflawniad, datblygiad neu hyfforddiant a dylen nhw fod yn dargedau C.A.M.P.U.S. (S.M.A.R.T.):

Cyraeddadwy – ydy e'n realistig o fewn cwmpas eich swydd chi?

Enghraifft: "Anelu at fod yn brydlon i'r gwaith a ffonio ymlaen llaw os oes oedi y tu hwnt i'ch rheolaeth" yn hytrach na "pheidio â bod yn hwyr i'r gwaith eto" – fyddai hynny ddim yn gyraeddadwy.

Amserol – pryd ydych chi'n bwriadu cwblhau pob cam?

Enghraifft: Mae "cwblhau rhaglen fentora rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd" yn rhoi amserlen fwy realistig i'r gweithiwr na "chwblhau rhaglen fentora".

Mesuradwy – sut byddwch chi'n mesur/cadw cofnod o'ch cynnydd chi?

Enghraifft: Mae "cynyddu nifer y galwadau i gwsmeriaid sy'n cael eu gwneud i 10 y dydd" yn fwy mesuradwy na "chynyddu nifer y galwadau i gwsmeriaid sy'n cael eu gwneud".

Penodol – beth hoffech chi ei gyflawni?

Enghraifft: Efallai mai'r nod fyddai "Gwella sgiliau blaenoriaethu" ond nod mwy penodol fyddai "Cwblhau'r modiwl e-ddysgu i wella sgiliau blaenoriaethu".

Uchelgeisiol a Synhwyrol – a yw'n ffitio o fewn eich swydd chi?

Enghraifft: Dyw "cwblhau gradd mewn Gwaith Cymdeithasol" ddim yn amcan synhwyrol os yw eich swydd chi yn yr adran Beirianeg.

Gwnewch y canlynol er mwyn sicrhau bod eich amcanion yn rhai 'CAMPUS':

Ysgrifennwch y nodau/amcanion ar gyfer y flwyddyn a'u cymharu nhw gyda'r canllawiau CAMPUS uchod. Os oes angen, addaswch y nodau/amcanion.

Wrth drafod dylech chi ddod i gytundeb ynglŷn â'r deilliant disgwyledig a'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i fesur hyn. Trefnwch fod cyfleoedd i adolygu'r nodau/amcanion yn rheolaidd, er enghraifft gallwch chi adolygu'r rhain yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd sy'n dilyn yr adolygiad. Mae modd cofnodi'r nodau/amcanion cytûn ar y templed ar gyfer Adolygiadau Cyflawniad Unigolyn.



➤ **Ar ôl y cyfarfod**

Yn dilyn yr adolygiad, cyfrifoldeb y rheolwr a'r gweithiwr ydy monitro ac adolygu'r nodau/amcanion cytûn drwy gydol y flwyddyn.

Does dim angen copi o'r adolygiad yma arnon ni. Dylech chi a'ch rheolwr gadw copi at ddibenion monitro.

Ar ôl ei gwblhau, bydd eich rheolwr chi'n cymeradwyo'ch adolygiad ar iTrent. Mae modd cofnodi nodau sydd wedi'u gosod yn ystod eich adolygiad ar iTrent hefyd. Bydd modd i chi weld y manylion cymeradwyo trwy fewngofnodi i'r porth Hunan-wasanaeth i Weithwyr.

Mae canllaw cam-wrth-gam ar sut i weld y cyfnod cymeradwyo a sut i weld, ychwanegu a diweddarau eich nodau ar gael ar The Source.

Manylion cyswllt

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi e-bostio AdolyguCyflawniadAD@rctcbc.gov.uk.